



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru

**Rhagfyr 2023**

**[llyw.cymru](http://llyw.cymru)**

# Dadansoddiad Dosbarthiadol o Wariant Cyhoeddus yng Nghymru: diweddariad ar gyfer cyllideb ddrafft Rhagfyr 2023

## Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad wedi'i ddiweddarau o effaith ddosbarthiadol gwariant adnoddau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Cyhoeddwyd adroddiadau blaenorol ar y cyd â'r cyllidebau drafft ym mis Rhagfyr 2020<sup>1</sup> a 2021<sup>2</sup>. Mae'r dadansoddiad yn ymdrin â rhaglenni sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r gyllideb gyffredinol a chanfu bod gwariant adnoddau datganoledig yn raddoledig ar y cyfan ar draws dosbarthiad incwm aelwydydd, gyda rhywfaint o amrywiad rhwng y meysydd gwariant gwahanol a ystyriwyd.
2. Mae'r adroddiad hwn yn:
  - i. disgrifio'n gryno y dull gweithredu methodolegol a fabwysiedir yn y dadansoddiad,
  - ii. trafod cryfderau, gwendidau a ffyrdd o ddefnyddio dadansoddiad o'r fath,
  - iii. dogfennu'r data a'r gwelliannau methodolegol sydd wedi'u cynnwys yn yr argraffiad hwn.

## Methodoleg

3. Amcan allweddol y dadansoddiad dosbarthiadol yw dangos defnydd gwasanaethau cyhoeddus yn ôl incwm aelwydydd. Daw un o'r ffynonellau data mwyaf manwl sydd ar gael ar incwm aelwydydd o'r Arolwg o Adnoddau Teulu<sup>3</sup>. Mae sampl yr Arolwg o Adnoddau Teulu ar gyfer Cymru wedi cael ei chyfuno dros dair blynedd er mwyn gwneud y datganiad a gyflwynir yma yn fwy cadarn.
4. Gan ddefnyddio data'r Arolwg o Adnoddau Teulu, caiff incwm ar ôl treth a budd-daliadau ei amcangyfrif gan ddefnyddio model micro-efelychu o'r enw UKMOD<sup>4</sup>. Yna caiff incwm ar ôl treth a budd-daliadau ei gyfuno ar draws aelodau o aelwydydd er mwyn cynhyrchu amcangyfrif o incwm aelwydydd yng Nghymru. Yna caiff aelwydydd eu trefnu yn ôl eu hincwm – yn ôl cwintel – o'r pumed tlotaf i'r pumed cyfoethocaf<sup>5</sup>.

---

<sup>1</sup> Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-dosbarthiadolo-wariant-cyhoeddus-datganoledig-yng-nghymru>

<sup>2</sup> Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/dadansoddiad-dosbarthiadolo-wariant-cyhoeddus-datganoledig-yng-nghymru-2022-2023>

<sup>3</sup> I gael rhagor o fanylion, gweler <https://www.gov.uk/government/collections/family-resources-survey--2>

<sup>4</sup> *Richiardi M, Collado D, Popova D (2021). UKMOD – A new tax-benefit model for the four nations of the UK. International Journal of Microsimulation, 14(1): 92-101. DOI: 10.34196/IJM.00231.*

<sup>5</sup> Caiff incwm aelwydydd ei addasu i adlewyrchu cyfansoddiad gwahanol aelwydydd. Bwriedir i'r broses addasu neu gyfwerthedd hon ei gwneud yn haws cymharu incwm ac adlewyrchu safonau byw ar draws gwahanol fathau o aelwydydd. Mae'r broses cyfwerthedd yn defnyddio graddfa cyfwerthedd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

5. Caiff data ar incwm aelwydydd eu cyfuno â gwybodaeth am ddefnydd o wasanaethau cyhoeddus, er mwyn dyrannu gwariant cyhoeddus rhwng unigolion ac aelwydydd ar draws y dosbarthiad incwm. Mae'r ffocws yma ar wariant adnoddau, h.y. gwariant o ddydd i ddydd ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan fod cysylltiad cymharol uniongyrchol rhwng y math hwn o wariant a'r fantais i'r sawl sy'n derbyn y gwasanaeth. Nid yw gwariant cyfalaf wedi cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, gan nad yw'r cysylltiad mor glir.
6. Nodir y defnydd o wasanaethau cyhoeddus yn y dadansoddiad mewn dwy brif ffordd. Caiff naill ai ei nodi'n uniongyrchol yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu, fel gyda rhai elfennau o ddarpariaeth addysg. Neu, caiff ei amcangyfrif gan ddefnyddio dull rhagfynegi y tu allan i'r sampl. Mewn achosion o'r fath, caiff nodweddion person neu aelwyd sy'n defnyddio gwasanaeth eu nodi o ffynhonnell ddata arall, megis Arolwg Cenedlaethol Cymru. Defnyddir model ystadegol i gysylltu'r wybodaeth hon yn ôl i'r bobl neu'r aelwydydd hynny â'r un nodweddion yn yr Arolwg o Adnoddau Teulu, sy'n cynnwys gwybodaeth am eu hincwm. Yna defnyddir eu defnydd rhagweledig o wasanaethau i ddyrannu gwariant rhwng aelwydydd.

### **Cryfderau, gwendidau a ffyrdd o ddefnyddio dadansoddiad dosbarthiadol**

7. Mae dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus yn codi nifer o faterion cysyniadol a methodolegol. Aeth y [Dadansoddiad Dosbarthiadol o Wariant Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru](#) cyntaf ati i ystyried y materion hyn yn fanwl.
8. Ar y cyfan, cryfder dadansoddiad dosbarthiadol yw dangos patrymau bras yn hytrach nag amcangyfrifon manwl o effeithiau ariannol o fewn adrannau unigol o'r dosbarthiad incwm. Gall helpu i roi cyd-destun i syniadau strategol ynghylch blaenoriaethau gwariant eang, ac mae'n caniatáu inni ddod i rai casgliadau bras ynghylch effaith gyffredinol gwariant cyhoeddus datganoledig ar aelwydydd gwahanol yng Nghymru, er bod hynny'n digwydd mewn ffordd anuniongyrchol. Y dybiaeth a gaiff ei chymhwyso yn y dadansoddiad hwn yw bod gwerth gwasanaeth yn hafal i gost gyfartalog ei ddarparu. Fodd bynnag, efallai na fydd y gwerth hwn yn hafal i'r gwerth i'r sawl sy'n ei dderbyn, neu i gymdeithas yn ehangach.
9. At hynny, gan fod y dadansoddiad yn defnyddio dull 'o'r brig i lawr' o fesur gwariant, yn ogystal â derbynwyr gwasanaethau cyhoeddus (gan ganolbwyntio ar y defnyddiwr cyffredin), nid yw'n ddigon manwl i daflu goleuni ar effeithiau rhaglenni polisi unigol, neu newidiadau penodol rhwng cyllidebau. Nid yw 'chwaith yn addas ar gyfer rhai rhaglenni gwariant, er enghraifft y rheini sy'n canolbwyntio ar wariant ataliol neu boblogaethau neu ardaloedd daearyddol targed penodol. Yn achos y cyntaf, mae'n bosibl iawn y bydd y rhai sy'n cael budd o'r gwariant yn wahanol i'r rhai sy'n derbyn y gwasanaethau ar hyn o bryd. Ac mewn perthynas â'r olaf, mae'n bosibl na fydd modd cofnodi agweddau manylach ar y poblogaethau neu'r ardaloedd daearyddol targed hynny oherwydd cyfyngiadau data.

## Diweddariadau ar Ddata a Modelu

### Data

10. Mae'r dadansoddiad wedi'i ddiweddarau yn defnyddio set ddata tair blynedd gyfun o'r Arolwg o Adnoddau Teulu gan gwmpasu 2018-19, 2019-20 a 2021-22. Nid yw data ar gyfer 2020-21 wedi cael eu cynnwys oherwydd effaith pandemig y coronafeirws ar ymatebion i'r Arolwg o Adnoddau Teulu a maint y sampl y flwyddyn honno. (Defnyddiodd iteriadau blaenorol o'r dadansoddiad set ddata gyfun o'r Arolwg o Adnoddau Teulu gan gwmpasu 2015-16, 2017-18 a 2018-19, yn y drefn honno).
11. Mewn sawl achos, caiff y defnydd o wasanaethau cyhoeddus ei ragfynegi gan ddefnyddio set ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r dadansoddiad yn defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael yma ar gyfer 2022-23, ac mae hefyd yn defnyddio cwestiynau newydd a ychwanegwyd at yr Arolwg Cenedlaethol er mwyn helpu i fireinio'r amcangyfrifon o ddefnydd aelwydydd o wasanaethau iechyd ac addysg uwch.

### Modelu

12. Ar hyn o bryd, mae'r model yn cwmpasu iechyd, addysg, trafnidiaeth a'r rhan fwyaf o'r gwariant ar ofal cymdeithasol i oedolion. Mae'n cyfrif am tua £17 biliwn o wariant adnoddau datganoledig yng Nghymru, gan gynrychioli tua 70 y cant o'r cyfanswm. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn ymwneud â'r cynlluniau gwariant diweddaraf ar gyfer 2024-25, fel y dangosir yn y Gyllideb ddrafft, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2023.
13. Ar gyfer iechyd, trafnidiaeth, addysg uwch (gwariant grantiau) a'r agweddau amhreswyl ar ofal cymdeithasol, mae'r defnydd o wasanaethau bellach yn seiliedig ar ddata o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r defnydd o wasanaethau ar gyfer pob elfen arall o addysg yn seiliedig ar ddata o'r Arolygon o Adnoddau Teulu, ac mae'r defnydd o ofal cymdeithasol preswyl ar gyfer pobl hŷn wedi cael ei amcangyfrif gan ddefnyddio dull rhagfynegi y tu allan i'r sampl, yn debyg i flynyddoedd blaenorol<sup>6</sup>.
14. Mewn iteriadau blaenorol o'r dadansoddiad, defnyddiodd y model iechyd ddata o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwybodaeth am y defnydd o wasanaethau, a Chronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru er mwyn amcangyfrif pa mor aml y defnyddir gwasanaethau iechyd. Er i'r Arolwg Cenedlaethol ein galluogi i wneud rhagfynegiad manwl y tu allan i'r sampl o ran y defnydd o wasanaethau, roedd data Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru yn fwy cyfyngedig. Nid oedd yn cynnig gwybodaeth am nodweddion cleifion. Arweiniodd hyn at fodel rhagfynegi y tu allan i'r sampl manwl ar gyfer y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, ond rhagfynegiad llawer mwy cyfyngedig o ran dwysedd y defnydd. Er mwyn goresgyn y broblem hon, ychwanegwyd cwestiynau ychwanegol at yr Arolwg Cenedlaethol yn 2022-23 ac, o ganlyniad, cafwyd data manwl ar y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru, a pha mor aml y maent yn eu defnyddio. Mae hyn wedi ein galluogi i greu model mwy

---

<sup>6</sup> Mae hyn yn defnyddio gwybodaeth o'r Astudiaeth Hydredol o Heneiddio yn Lloegr (ELSA).

cadarn i ddyrannu gwariant defnyddwyr iechyd ar gyfer apwyntiadau meddygon teulu, ymwelwyr iechyd a chleifion mewnol ac allanol mewn ysbytai yn y diweddariad hwn.

15. Hefyd, newidiwyd y ffordd y pennir gwariant y grant cynhaliath addysg uwch ar draws cwintelau incwm aelwydydd. Yn hytrach na dyrannu gwariant grant i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, y dull a fabwysiadwyd yn y dadansoddiad hwn yw priodoli gwariant grant i aelwydydd yng Nghymru sydd â phlant yn y brifysgol. Mae hyn yn golygu y gellir cymhwyso'r prawf modd incwm aelwyd priodol, er mwyn dosbarthu gwariant grant ar draws cwintelau incwm aelwydydd.
16. Mae'r fersiwn hon o'r dadansoddiad dosbarthiadol hefyd yn ystyried y newid polisi sydd ar ddod mewn perthynas â chymhwysedd ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim yn 2024-25, lle bydd pob plentyn oed cynradd mewn ysgolion y wladwriaeth yn gymwys.


### Canlyniadau

17. Mae **Ffigur 1** isod yn cyflwyno'r dadansoddiad wedi'i ddiweddarau'n llawn, gan gynnwys y datblygiadau newydd a ymgorfforwyd eleni. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma yn seiliedig ar UKMOD fersiwn B1.09. Caiff UKMOD ei gynnal, ei ddatblygu a'i reoli gan y Ganolfan Micro-efelychu a Dadansoddi polisi yn y Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd (ISER), Prifysgol Essex<sup>7</sup>. Yr awduron sy'n gwbl gyfrifol am y canlyniadau a'u dehongliad.
18. Erys y darlun cyffredinol a gyflwynir yn gyson ag iteriadau blaenorol o'r dadansoddiad: ar y cyfan, mae'r gwariant ar y meysydd o wasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn raddoedig o ran incwm aelwydydd. Fodd bynnag, nid yw'n gyson raddoedig yn ôl cwintel incwm. Caiff dadansoddiadau manylach eu cyflwyno yn yr Atodiad.

---

<sup>7</sup> Richiardi M, Collado D, Popova D (2021). **UKMOD – A new tax-benefit model for the four nations of the UK**. *International Journal of Microsimulation*, 14(1): 92-101. DOI: 10.34196/IJM.00231.

**Ffigur 1: Gwariant adnoddau datganoledig yng Nghymru yn ôl prif faes gwasanaeth, 2024-25**



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG), Arolwg Cenedlaethol Cymru ac UKMOD


### Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

19. Caiff y gwaith a'r dadansoddiadau sydd eu hangen i ddiweddarau'r dadansoddiad dosbarthiadol eu hadolygu'n barhaus. Bydd penderfyniadau am ddiweddariadau yn y dyfodol yn seiliedig ar argaeledd data o sylwedd neu welliannau mewn methodoleg. Fel arall, nid yw'r cydberthnasau sylfaenol a gofnodir yn y dadansoddiad hwn yn debygol o newid yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.
20. Bydd cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r dadansoddiad yn fwy cyffredinol yn parhau i gael eu hystyried, gan y gall fod cyfleoedd i archwilio dulliau newydd o gysylltu data. Caiff datblygiadau mewn dadansoddiadau dosbarthiadol cyfatebol a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill eu monitro hefyd, gyda'r nod o ymgorffori unrhyw welliannau yn y dyfodol lle y bo'n ymarferol.

## Atodiad


1. Amcangyfrifir bod gwariant adnoddau ar iechyd yn raddoledig mewn perthynas ag incwm (Ffigur A1). Caiff mwy o wariant adnoddau ar iechyd ei briodoli i bobl yn y cwintelau incwm isaf nag aelwydydd incwm cyfartalog ac incwm uwch. Mae gwariant yn y cwintel incwm isaf tua chwe y cant yn uwch na'r cyfartaledd ac mae gwariant yn y cwintel uchaf tua naw y cant yn is na'r cyfartaledd.

**Ffigur A1: Gwariant adnoddau ar iechyd yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2024-25**



2. Gwelir bod gwariant adnoddau ar ysgolion hefyd yn raddoledig mewn perthynas ag incwm (ffigur A2). Mae gwariant fesul person 14 y cant yn uwch na'r cyfartaledd yn y cwintel incwm isaf a 49 y cant yn uwch na'r cyfartaledd yn yr ail gwintel. Y rheswm dros hyn yw bod mwy o blant oedran ysgol, ar gyfartaledd, yn yr ail gwintel. Dim ond 48 y cant o'r cyfartaledd yw'r gwariant fesul person yn y cwintel uchaf. Y rheswm dros hyn yw bod nifer y plant oedran ysgol yn gymharol fach mewn aelwydydd incwm uchel.

**Ffigur A2: Gwariant adnoddau ar ysgolion yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2024-25**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG), Arolwg Cenedlaethol Cymru ac UKMOD*

3. Amcangyfrifir bod gwariant adnoddau ar addysg uwch yn hynod raddoledig mewn perthynas ag incwm. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys cyllid ar gyfer sefydliadau addysg uwch a chyllid grant myfyrwyr. Mae'r canlyniad hwn yn adlewyrchu dau ffactor: mae pobl sy'n mynychu addysg uwch yn dueddol o ddod o aelwydydd incwm uwch, ond caiff yr effaith hon ei gwrthbwysu i raddau helaeth gan y grant prawf modd, sy'n rhoi mwy i'r rhai sy'n dod o aelwydydd incwm is.
4. Nid yw'r canfyddiadau hyn yn cynnwys unrhyw fenthyciadau i fyfyrwyr, y caiff rhan ohonynt ei dosbarthu'n wariant cyhoeddus. Tybir ei bod yn annhebygol y caiff pob benthyciad myfyrwyr ei ad-dalu'n llawn, am fod y telerau ad-dalu yn dibynnu ar incwm a bod iddynt derfynau amser. Mae'r elfen na chaiff ei had-dalu yn cael ei chyfrif fel gwariant cyhoeddus a chaiff ei hamcangyfrif ar adeg rhoi'r benthyciadau. Mae effaith ddosbarthiadol y gwariant cyhoeddus hwnnw yn anodd ei hamcangyfrif ac, ar gyfer benthyciadau unigol, bydd yn dibynnu ar incwm myfyrwyr heddiw yn y dyfodol yn hytrach nag incwm eu cartrefi presennol.




**Ffigur A3: Gwariant adnoddau ar addysg uwch yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2024-25**



Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG), Arolwg Cenedlaethol Cymru ac UKMOD

- Mae Ffigur A4 isod yn dangos gwariant adnoddau datganoledig yng Nghymru ar addysg yn ei chyfanrwydd. O ystyried dosbarthiad pob elfen a ddangosir uchod, yn enwedig i ysgolion sy'n gyfystyr â thros ddwy ran o dair o wariant ar addysg, nodir bod gwariant ar addysg yn raddoledig yn fras ar y cyfan.

**Ffigur A4: Gwariant adnoddau datganoledig ar addysg yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2024-25**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG), Arolwg Cenedlaethol Cymru ac UKMOD

6. Mae'r canlyniadau ar gyfer yr ychwanegiad newydd, sef gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus (Ffigur A5 isod), yn awgrymu bod gwariant adnoddau yn gymharol unffurf ar y cyfan mewn perthynas ag incwm aelwydydd. Mae gwariant ar wasanaethau bysiau yn raddoledig, yn wahanol i gymorthdaliadau rheilffyrdd. Mae hyn yn gymharol gyson â chanfyddiadau'r SYG ar gyfer gwariant cyhoeddus ar gymorthdaliadau bysiau a rheilffyrdd yn y DU<sup>8</sup>.
7. Dim ond gwariant ar y rhai y rhagwelir y byddant yn defnyddio'r gwasanaeth, yn gyson â meysydd gwasanaeth eraill, y mae'r dadansoddiad hwn yn ei gofnodi. Nid yw'n cofnodi unrhyw fanteision ehangach posibl i gymdeithas a allai fod yn gysylltiedig ag unrhyw fath o wariant cyhoeddus. Mae'r elfennau hyn yn llawer anos eu cofnodi yn y math hwn o ddadansoddiad ac nid ydynt wedi'u cynnwys yma, yn gyson â phob fersiwn arall o ddadansoddiadau dosbarthiadol yn y DU hyd yma. Mae hefyd yn werth nodi nad yw'r wybodaeth am y defnydd o'r rheilffyrdd a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn yn gyfyngedig i'r gwasanaethau hynny a ddatganolir i Gymru. Gallai proffil incwm y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau datganoledig fod yn wahanol i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau annatganoledig.
8. O fewn pob cwintel, mae'n debyg y byddai amrywiadau o ran defnydd rhwng unigolion. Gall rhai unigolion ddefnyddio trafnidiaeth yn aml ac mae'n bosibl mai dim ond ychydig y bydd eraill yn defnyddio gwasanaethau, neu ddim o gwbl. Nid yw'r dadansoddiad yma yn nodi'r dimensiwn ecwiti llorweddol hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod yr amrywiad tebygol o ran defnydd, yn enwedig o ystyried y cydbwysedd o gymunedau gwledig a threfol yng Nghymru.

---


<sup>8</sup> Ar gael yn: [Effects of taxes and benefits on UK household income - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk)

**Ffigur A5: Gwariant adnoddau datganoledig ar drafnidiaeth yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2024-25**



9. Gwelir bod gwariant adnoddau ar ofal cymdeithasol i oedolion yn raddoledig mewn perthynas ag incwm (gweler Ffigur A6). Mae gwariant y pen yn y cwintel incwm isaf a'r ail gwintel incwm 22 ac 17 y cant yn uwch na'r cyfartaledd, yn y drefn honno. Dim ond 59 y cant o'r cyfartaledd yw gwariant y pen yn y cwintel incwm uchaf.
10. Fodd bynnag, nid yw'r gydberthynas ag incwm yn unffurf ar gyfer gofal cymdeithasol preswyl i oedolion hŷn, gyda'r gwariant uchaf y pen ymhlith yr ail, y trydydd a'r pedwerydd cwintel incwm. Mae'r defnydd a ragwelir o ofal preswyl i oedolion hŷn hefyd ar ei uchaf ymhlith y tri chwintel hyn – ac mae'n cynyddu o gwintel i gwintel. Fodd bynnag, o ran gwariant, caiff effaith cynyddu'r defnydd a ragwelir ei chymedroli drwy ddefnyddio'r profion modd cyfalaf ac incwm ar gyfer gofal preswyl.

**Ffigur A6: Gwariant adnoddau ar ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2023-24\***



**Cwintel o gyfwerthedd incwm aelwydydd**

*Noder: Dim ond ar gyfer oedolion hŷn y caiff gofal preswyl ei fodelu oherwydd cyfyngiadau data.  
 Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG),  
 Arolwg Cenedlaethol Cymru ac UKMOD*